**Fforwm Cymunedau Ffydd**

**Ystafelloedd Seminar 1 a 2, Adeilad y Pierhead, Bae Caerdydd**

**10:00-11:30 ar 13 Tachwedd 2019**

**Cofnodion**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Mark Drakeford AC, Prif Weinidog | Cadeirydd |
| Jane Hutt AC, Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip | Dirprwy Gadeirydd **(yn Cadeirio)** |
| Kirsty Williams AG, y Gweinidog Addysg | Llywodraeth Cymru |
| John Davies | Archesgob Cymru (Yr Eglwys yng Nghymru) |
| Aled Edwards | Eglwysi Ynghyd yng Nghymru |
| Gethin Rhys | Eglwysi Ynghyd yng Nghymru |
| Rheinallt Thomas | Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru |
| Viv Bartlett | Cyngor Bahá'í Cymru |
| Christine Abbas | Cyngor Bahá'í Cymru |
| Naran Patel | Cyngor Hindwiaid Cymru |
| Radhika Kadaba | Cyngor Hindwiaid Cymru |
| Nor'dzin Pamo | Cynrychiolydd Bwdaidd |
| Lawrence Kahn | Cyngor Cynrychioli Iddewon De Cymru |
| Melody Odey | Cyngor Cynrychioli Iddewon De Cymru |

**Ymddiheuriadau:**

| | |
|---|---|
| Philip Manghan | Yn cynrychioli Archesgob Caerdydd |
| Sam Pritchard | Cynghrair Efengylaidd Cymru |
| Sian Rees | Cynghrair Efengylaidd Cymru |
| Meraj Hasan | Cyngor Mwslimiaid Cymru |
| Saleem Kidwai | Cyngor Mwslimiaid Cymru |
| Taikyo David Morgans | Cyngor Bwdaidd Cymru |
| Joga Singh | Cyngor Sikh Cymru |
| Gurmit Singh Randhawa | Cyngor Sikh Cymru |

**Swyddogion Llywodraeth Cymru:**

Alyson Francis, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Cymunedau
Amelia John, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Polisïau ar gyfer y Dyfodol a Llunio Polisïau Integredig
Karen Cornish, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Plant a Theuluoedd
Uzo Iwobi, Ymgynghorydd Arbennig ar gyfer Cydraddoldeb
Emma Bennett, Pennaeth y Gangen Cydraddoldeb
John Davies, y Gangen Cydraddoldeb
Hannah Fisher, y Gangen Cydraddoldeb
Robin Grossmann, y Gangen Cydraddoldeb
John Pugsley, yr Is-adran Cwricwlwm

| | |
|---|---|
| 1 | **Croeso a chyflwyniadau**<br><br>Croesawodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip aelodau'r fforwm, a gofyn iddynt gyflwyno eu hunain.<br><br>Siaradodd y Dirprwy Weinidog am weithgareddau a digwyddiadau ffydd diweddar yr oedd hi a'r Prif Weinidog yn bresennol ynddynt. Roedd y rhain yn cynnwys, ymysg eraill, agor cyfarfod y Comisiwn Rhyng-ffydd Anglicanaidd yn adeilad y Pierhead, ymweliad â'r arddangosfa Lleisiau'r Gymuned Iddewig De Cymru yn Sain Ffagan ac arddangosfa Bywyd Iddewig ym Mangor yn adeilad y Pierhead yr wythnos hon, ynghyd â digwyddiadau i ddathlu 150 mlynedd ers geni Mahatma Gandhi a dathliadau Diwali.<br><br>Soniodd y Dirprwy Weinidog hefyd am gyfarfod llwyddiannus gyda Imamiaid o leoliadau ar draws De Cymru yn gynharach yn yr wythnos ynglŷn â diogelwch mewn Mannau Addoli, ac ymdrechion i ddefnyddio Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol (CFP) Llywodraeth Cymru i ehangu mynediad i Fannau Addoli, yn unol â dymuniadau Mosgiau.<br><br>Dywedodd y Dirprwy Weinidog cymaint yr oedd wedi mwynhau y Daith Ryng-Ffydd yng Ngolau Cannwyll yn Rhiwbeina a faint o argraff oedd y Côr Rhyng-Ffydd wedi'i chael arni. Canmolodd y digwyddiad a oedd yn cynnwys dros 100 o bobl o wahanol ffydd, a dywedodd ei bod yn gobeithio y gallai mwy o deithiau fel hyn gael eu cynnal ar draws Cymru y flwyddyn nesaf. |
| 2 | **Cofnodion y cyfarfod diwethaf a phwyntiau gweithredu**<br><br>Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf eu cytuno gan bawb. Dywedodd y Dirprwy Weinidog y dylai'r camau sydd heb eu cwblhau gael eu trafod yng nghyfarfod nesaf Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru ar gyfer Troseddau Casineb ym mis Ionawr. |
| 3 | **Eitem 1: Y cwricwlwm newydd (diweddariad ar yr ymgynghoriad Mynediad i'r Cwricwlwm Llawn)**<br><br>Siaradodd y Dirprwy Weinidog am y cynigion sy'n destun ymgynghori ar hyn o bryd, a chyflwynodd y Gweinidog Addysg.<br><br>Dywedodd y Gweinidog Addysg ei bod yn ddiolchgar am y gwahoddiad i gwrdd ag arweinyddion ffydd yng Nghymru. Eglurodd y sail ar gyfer yr ymgynghoriad presennol a'r gwaith parhaus i ailgynllunio'r cwricwlwm Cymreig, gan gyfeirio at yr adroddiad "Dyfodol Llwyddiannus" gan yr Athro Graham Donaldson a gyhoeddwyd yn 2014. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig cwricwlwm "a arweinir gan ddibenion" sy'n seiliedig ar 6 maes dysgu a phrofiad, gyda ffocws ychwanegol ar Iechyd a Lles pobl ifanc.<br><br>Aeth y Gweinidog ymlaen i drafod y canlynol:<br><br>• gwaith i ddatblygu system addysg sy'n ennyn hyder y cyhoedd;<br>• yr angen i gau'r bwlch cyrhaeddiad yng Nghymru;<br>• Bil arfaethedig i sicrhau'n gyfreithiol fod yr iaith Gymraeg a Saesneg a Chrefydd yn cael eu cynnwys yn y cwricwlwm; |

- y cynnig i newid yr hyn y cyfeirir ato ar hyn o bryd fel "Addysg Rhyw" i "Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb" a fydd yn canolbwyntio'n fanylach ar berthnasau;
- y cynnig ynghylch hawl plant i gael mynediad i'r cwricwlwm llawn;
- y cynnig i newid yr hyn y cyfeirir ato ar hyn o bryd fel "Addysg Grefyddol" i "Crefyddau a Bydolygon". Mae'r newid hwn yn cymryd i ystyriaeth y Ddeddf Hawliau Dynol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i safbwyntiau crefyddol, a safbwyntiau sy'n gyffelyb i grefydd, gael eu trin yn gyfartal. Nodwyd bod y Comisiwn ar Addysg Grefyddol yn Lloegr hefyd wedi cynnig yr enw "Crefyddau a Bydolygon".

Atgoffodd y Gweinidog y grŵp fod yr ymgynghoriad yn cau ar 28 Tachwedd 2019 a phwysleisiodd fod Llywodraeth Cymru'n awyddus i glywed amrywiaeth barn.

Rhoddodd y Dirprwy Weinidog ddiolch i'r Gweinidog Addysg a gwahodd sylwadau:

Mynegodd Rheinallt Thomas (RT) bryder ynglŷn a'r newid arfaethedig o "Addysg Grefyddol" i "Crefyddau a Bydolygon". Dywedodd nad yw'r term "bydolygon" yn cael ei dderbyn yn eang a'i fod yn derm amwys. Dywedodd efallai fod y newid wedi'i yrru'n bennaf gan agenda di-ffydd ac mai un o'r ystyriaethau ar gyfer y math hwn o newid oedd adroddiad gan Gomisiwn yn Lloegr nad oedd yn cynnwys ymgynghoriad yng Nghymru.

Cyfeiriodd Rheinallt hefyd at rai gwallau y cyfieithiad Cymraeg o'r ddogfen ymgynghori ac awgrymodd fod y gwallau hyn yn cynnwys dehongliadau iaith oedd yn anghywir ac y gallai fod yn gamarweiniol.

Aeth ymlaen i awgrymu y gallai fod yn broblem fod y newidiadau arfaethedig i Addysg Ryw ac Addysg Grefyddol yn destun ymgynghori ar yr un pryd. Eglurodd fod cefnogaeth gref i'r newidiadau'n ymwneud ag Addysg Ryw o fewn y sefydliadau y mae ef yn eu cynrychioli ond fod gwrthwynebiad cryf mewn perthynas ag Addysg Grefyddol.

Dywedodd Christine Abbas mai rhieni sy'n bennaf gyfrifol am eu plant ac efallai bod ganddynt farn gwahanol ar y diffiniad o berthnasau na'r ysgolion y mae eu plant yn eu mynychu neu Lywodraeth Cymru. Gofynnodd a allai fod yn rhaid i ysgolion ymgynghori â rhieni'n unigol.

Cynghorodd Nor'dzin Pamo fod y rhan fwyaf o Fwdhyddion yng Nghymru wedi darganfod Bwdhaeth fel oedolion, ac felly'n llwyr gefnogi'r syniad bod pob crefydd yn cael ei addysgu mewn ysgolion fel fod plant yn gweld bod dewis yn gysylltiedig â chrefydd.

Cefnogodd Radhika Kadaba y syniad o ddysgu pob crefydd yn yr ysgol i hyrwyddo goddefgarwch a chytunodd y dylai'r addysg hwn fod yn orfodol. Fel rhiant, addysgodd ei phlant ei hun am eu crefydd yn y cartref, tra'n cyfeirio yn ogystal at ddysgeidiaeth gwyddoniaeth foesol mewn ysgolion Indiaidd, sy'n dysgu moesau a gwerthoedd i blant fel arfer da.

Y Gweinidog Addysg:
- ymddiheurodd am y gwallau cyfieithu yn y ddogfen ymgynghori;
- pwysleisiodd nad yw Llywodraeth Cymru'n ceisio lleihau hawliau na chyfrifoldebau rhieni fel prif addysgwyr plant ond fod rhaid cydnabod nad yw pob rhiant mewn

sefyllfa i gynnig yr addysg hon na gwireddu holl anghenion addysgol eu plant yn y maes;

- cytunodd fod angen creu mwy o fannau lle mae plant yn dysgu i fod yn oddefgar a dangos parch;
- nododd broffesiynoldeb athrawon, sydd wedi'u rhwymo o dan eu cod ymarfer eu hunain, sy'n darparu gwybodaeth ffeithiol i blant heb wthio unrhyw syniadau;
- atgoffodd y grŵp o'r peryglon y mae plant yn eu hwynebu ar-lein. Ni fyddwn yn eu cadw yn ddiogel trwy eu cadw yn anwybodus, mae angen i ni eu haddysgu yn yr ysgol a gartref.

Eglurodd y Gweinidog mai'r rheswm fod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac Addysg Grefyddol yn cael eu hystyried fel rhan o'r un ymgynghoriad yw oherwydd mai dyma'r unig ddau faes lle mae gan rieni'r hawl i dynnu eu plant yn ôl o'r gwersi perthnasol.

Gwahoddodd y Dirprwy Weinidog unrhyw sylwadau pellach.

Dywedodd Aled Edwards ei fod yn ddiolchgar am ymateb y Gweinidog a soniodd am y diffyg anghydfod ar y mater hwn hyd yn hyn o gymharu â rhannau eraill o'r DU. Atgoffodd y grŵp y bydd angen gweithio'n galed i gynnal yr ewyllys da hwn. Mewn cymunedau lle mae agweddau traddodiadol ynghylch teulu'n cael eu harddel, cynghorodd ei bod yn bwysig ymdrin yn ofalus â'r negeseuon negyddol ynghylch:

- cyfrifoldeb teuluol;
- cynildeb o amgylch priodoldeb oed;
- sut gall cymunedau gael llais yn y negeseuon o fewn ysgolion.

Dywedodd Aled hefyd fod rhai merched mewn digwyddiad mosg diweddar wedi awgrymu proses ymgynghori barhaus i wneud yn siŵr nad yw eu daliadau ffydd yn cael eu tanseilio mewn gwersi perthnasol.

Rhoddodd Archesgob Cymru ddiolch i'r Gweinidog hefyd a thynnodd sylw at yr angen i ddarganfod man canol mewn dadleuon fel hyn a bod perthnasau'n fater o bwys i bob ffydd. Ei unig sylw ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb oedd pan fo'r termau "rhyw" neu "rhywioldeb" yn cael eu cynnwys mewn teitl, y gallai o bosibl gael ei weld fel symudiad i danseilio agweddau traddodiadol.

Dywedodd Viv Bartlett fod y 6 amcan yn wych ond gofynnodd a oes modd cael rhywbeth mwy integredig. Cynigiodd ymgynghoriad ar y weledigaeth gyfan, gan awgrymu gweledigaeth o'r enw Dinasyddiaeth Byd (World Citizenship).

Ymatebodd Y Gweinidog Addysg:

- Ceir ymrwymiad i ddeialog a sicrwydd parhaus;
- Mae Dinasyddiaeth Byd yn rhedeg drwy'r cwricwlwm;
- Nid ydym yn cychwyn o'r newydd, ond yn adeiladu ar y gwaith gwych sydd eisoes yn digwydd mewn ysgolion.

| | |
|---|---|
| | Awgrymodd Archesgob Cymru, er fod y fforwm wedi trafod addysg plant yn y cyfarfod heddiw, bod y gwaith sydd i ddod, mewn gwirionedd, yn gysylltiedig ag addysgu rhieni ac i gynnig sicrwydd i'r rheini sy'n ofni egwyddori neu gael eu tanseilio.<br><br>Diolchodd y Dirprwy Weinidog i'r Gweinidog Addysg, gan atgoffa aelodau'r fforwm o ddyddiau'r ymgynghoriad.<br><br>Diolchodd y Gweinidog Addysg i aelodau'r fforwm unwaith eto a gadael y cyfarfod.<br><br>**Cam gweithredu 1: Pob aelodau i ymateb i'r ymgynghoriad yn ymwneud â'r Cwricwlwm ac annog eraill i wneud hefyd.** |
| 4 | **Eitem 2: Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol (Cymru)**<br><br>Cyflwynodd y Dirprwy Weinidog yr eitem a darparu gwybodaeth i'r fforwm ar safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil hwn, sy'n amddiffyn hawliau plant ymhellach yng Nghymru. Os caiff y Bil ei ddeddfu, ni fydd yr amddiffyniad cosb resymol ar gael yng Nghmru i rieni neu i'r rheini sy'n ymddwyn in loco parentis, fel amddiffyniad i'r cyhuddiad o ymosodiad cyffredin neu guro. Yr effaith y bwriedir i'r Bil ei chael, ynghyd â chodi ymwybyddiaeth a chefnogaeth i rieni, yw lleihau'r defnydd a'r goddefgarwch o gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru.<br><br>Cydnabu'r Dirprwy Weinidog gyfraniad llawer o'r rheini a oedd yn y cyfarfod ac a helpodd i lywio'r Bil at sicrhau ei fod yn cyrraedd y cam hwn.<br><br>Gwahoddodd y Dirprwy Weinidog Karen Cornish, y Dirprwy Gyfarwyddwr Plant a Theuluoedd, i roi diweddariad.<br><br>Rhoddodd Karen ddiweddariad byr ar gynnydd a'r broses weithredu cyn dangos fideo byr. Eglurodd fod y Bil yn ymrwymiad hirdymor gyda'r nod cyffredinol o amddiffyn hawliau plant, gan ddarparu amddiffyniad cydradd iddynt rhag ymosodiad ag oedolion.<br><br>Eglurodd Karen fod y Bil wedi cael ei ddiwygio yng Ngham 2 fel rhan o'r broses trwy'r Cynulliad er mwyn caniatáu cyfnod o ddwy flynedd rhwng Cydsyniad Brenhinol a'i chychwyn (os gaiff y Bil ei phasio). Bydd hyn yn gadael digon o amser i gynnal ystod o weithgareddau gan gynnwys ymgyrch i godi ymwybyddiaeth, a darparu gwybodaeth a chyngor i weithwyr proffesiynol a chefnogaeth i rieni.<br><br>Bydd y cyflwyniad a'r fideo yn cael eu hanfon at aelodau'r fforwm gyda'r Cofnodion (20191104 Cyflwyniad Bil Cymru i'r Fforwm Ffydd). Dywedodd Karen y byddai hefyd yn hapus i rannu â'r fforwm newyddlen reolaidd ar y Bil. Gall unigolion a fyddai'n hoffi cael gwybodaeth reolaidd ar y datblygiadau'n ymwneud â'r Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol (Cymru) arfaethedig gofrestru ar gyfer y newyddlen yma: https://public.govdelivery.com/accounts/UKWALES_CY/subscriber/new?topic_id=UKWALES_CY_95<br><br>https://public.govdelivery.com/accounts/UKWALES/subscriber/new?topic_id=UKWALES_188<br><br>• Ceir copi o'r fideo sy'n egluro Bil yma: |

<table>
<tr><td></td><td>https://gov.wales/abolishing-defence-reasonable-punishment-children-overview<br><br>https://llyw.cymru/diddymu-amddiffyniad-cosb-resymol-ar-gyfer-plant-trosolwg?_ga=2.42079653.1413512046.1573646481-49142690.1568709282<br><br>• Gellir gweld arolwg llinell sylfaen 2018 ar agweddau cyhoeddus at gosbi plant yn gorfforol yma:<br>https://gov.wales/public-attitudes-physical-punishment-children-baseline-survey-2018<br><br>https://llyw.cymru/agweddau-cyhoeddus-gosbi-plant-yn-gorfforol-arolwg-llinell-sylfaen-2018?_ga=2.267713609.61596426.1573647089-585504540.1567593466<br><br>• Dylai’r rheini sy’n dymuno derbyn copïau o adnoddau’r ymgyrch ‘Magu Plant. Rhowch amser iddo’, e-bostio Maguplant@llyw.cymru.<br><br>Eglurodd y Dirprwy Weinidog fod Llywodraeth Cymru yn y camau olaf yn y broses o fynd â’r Bil trwy’r Cynulliad a diolchodd aelodau’r fforwm eto am eu rôl yn ystod yr ymgynghoriad. Gwahoddodd sylwadau.<br><br>Dywedodd Gethin Rhys ei fod yn siomedig fod mannau addoli wedi cael eu crybwyll yn fideo Llywodraeth Cymru fel lleoliad anrheoleiddiedig mewn perthynas â’r Bil. Er ei fod yn deall y rheswm pam, mae mesurau diogelu’r Eglwys wedi’u cynllunio i sicrhau fod plant yn ddiogel. Eglurodd hefyd fod cynnwys mannau addoli yn awgrymu drwgdybiaeth ac nad yw’n cydnabod gwaith diogelu parhaus.<br><br>Cam gweithredu 2: Pob aelod i ystyried ffyrdd y gallent weithio gyda swyddogion, os caiff y Bil ei basio, i rannu’r fideo ac i gofrestru ar gyfer y newyddlen.</td></tr>
<tr><td>5</td><td>Eitem 3: Cynllun Cydraddoldeb Strategol – amcanion<br><br>Cyflwynodd y Dirprwy Weinidog yr eitem a nododd y canlynol:<br><br>• mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gymdeithas decach lle nad yw pobl yn wynebu gwahaniaethu;<br>• rhaid diweddaru'r amcanion cydraddoldeb strategol erbyn Mawrth 2020, i'w defnyddio dros y pedair blynedd nesaf;<br>• cynhaliwyd gweithdy y diwrnod cynt (12/11/19) a wnaeth ddwyn ynghyd gwahanol fforymau i gyfrannu at yr ymgynghoriad. Nod y digwyddiad hwn oedd ymgysylltu â sefydliadau llai o faint yn dilyn adborth nad oedd gan rai o'r sefydliadau hyn yr adnoddau i ddarparu ymatebion ysgrifenedig ffurfiol i ymgynghoriadau;<br>• mae'r cynllun cydraddoldeb strategol yn berthnasol i holl waith Llywodraeth Cymru.<br><br>Roedd Gethin wedi mynychu’r gweithdy a dywedodd ei fod yn ddefnyddiol iawn gyda chytundeb cyffredinol ar nodau hirdymor. Tynnodd sylw at adborth cyffredinol yn gofyn bod camau ymarferol a chamau gweithredu manwl yn cael eu cynnwys. Nododd fod rhai o'r nodau’n uchelgeisiol iawn gydag amserlen pedair blynedd.<br><br>Ychwanegodd Emma Bennett y sylwadau canlynol:</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | • roedd cynrychiolaeth dda yn y gweithdy o wahanol fforymau a chafwyd llawer o adborth;<br>• roedd adborth cyffredin o ran ychwanegu manylion a chamau gweithredu, ond pwrpas yr ymgynghoriad oedd bod angen ymgynghori a chytuno ar amcanion a nodau hirdymor yn gyntaf cyn y gellid nodi a chadarnhau'r camau ategol;<br>• byddai'r dull gweithredu'n cynnwys canolbwyntio ar y bobl fwyaf difreintiedig<br>• os hoffai unrhyw gyflwyno adborth i'r ymgynghoriad, dylid gwneud hynny.<br><br>Atgoffodd y Dirprwy Weinidog aelodau'r fforwm fod amser ar ôl i roi adborth cyn i'r ymgynghoriad gau ar 19 Tachwedd.<br><br>Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y grŵp fod cychwyn y Ddyletswydd Gymdeithasol-economaidd yn bwysig iawn, yn enwedig mewn perthynas â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae tlodi yn difetha llawer o fywydau ond nid yw'n nodwedd warchodedig. Fe wnaeth y Dirprwy Weinidog hefyd gydnabod wythnos Cyflog Byw (dechrau 11/11/19) a nododd fod yn rhaid i ni fynd i'r afael â thlodi ar bob lefel. Cydnabu fod llawer mwy i'w wneud hefyd o ran hil ac anabledd, ond bod llawer o gynnydd yn cael ei wneud.<br><br>Cydnabu Archesgob Cymru'r synergedd rhwng y drafodaeth hon a'r materion a godwyd yn gynharach ynghylch addysg grefyddol a pherthynas; pe byddem yn cael rheini'n iawn, byddai llawer o faterion yn ymwneud â chydraddoldeb yn cael eu datrys hefyd.<br><br>Diolchodd y Dirprwy Weinidog i'r Archesgob am ei sylwadau a chyfeiriodd at rai o'i ysgrifau defnyddiol ar y pwnc hwn a gyhoeddwyd yn y Western Mail.<br><br>Nododd y Dirprwy Weinidog fod angen i'r Prif Weinidog adael y cyfarfod. Diolchodd y Prif Weinidog i'r aelodau am y cyfle i wrando ar y sgyrsiau pwysig heddiw. Dywedodd fod yna heriau y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â nhw, ond pwysleisiodd fod y Llywodraeth "eisiau mynd â phobl gyda ni". Tanlinellodd y Prif Weinidog bwysigrwydd y fforwm a mynegodd werth y gwaith sy'n mynd rhagddo. Pwysleisiodd, hyd yn oed pan oedd y pwnc yn un cymhleth, ei bod bob amser yn well siarad â'n gilydd a rhoi amser i drafodaethau, waeth pa mor anodd ydyn nhw.<br><br>Gadawodd y Prif Weinidog y cyfarfod.<br><br>**Cam gweithredu 3: Pob aelod i ymateb i'r ymgynghoriad ar yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol (os nad ydynt wedi gwneud hynny eisoes) ac annog eraill i wneud hynny.** |
| 6 | **Eitem 4: Aelodaeth a strwythur**<br><br>Eglurodd y Dirprwy Weinidog fod ceisiadau diweddar yn ymwneud ag aelodaeth a chynigiodd ei bod yn hen bryd adolygu Cylch Gorchwyl y fforwm ac ystyried yr aelodaeth. Awgrymodd fod gweithdy yn cael ei gynnal yn y flwyddyn newydd i adolygu'r Cylch Gorchwyl presennol ac ystyried y gofynion o ran aelodaeth.<br><br>Gwahoddodd y Dirprwy Weinidog sylwadau byr gan y grŵp gan nodi nad oedd pob aelod o'r fforwm yn bresennol. |

| | |
|---|---|
| | Dywedodd Aled Edwards mai ef, Naran Patel a'r Dirprwy Weinidog oedd yr unig aelodau sy'n weddill o'r fforwm gwreiddiol. Roedd yn teimlo y byddai'n werth chweil i adlewyrchu ar bwrpas gwreiddiol y fforwm, sef cynrychioli, mewn maint a chyfran rhesymol, crefyddau'r byd a grwpiau crefyddol yng Nghymru. Briff y fforwm oedd annog cymunedau ffydd i gysylltu â'i gilydd, a phwysleisiodd nad oedd fforwm erioed wedi'i gynllunio i fod yn gorff sy'n cynrychioli pob crefydd a chred.<br><br>Eglurodd y Dirprwy Weinidog fod ceisiadau diweddar i ymuno â'r fforwm wedi dod i law gan sefydliadau Mwslimaidd eraill a chan Ddyneiddwyr Cymru.<br><br>Nododd Viv Bartlett fod gwahaniaeth rhwng y Cyngor Rhyng-ffydd a'r Fforwm Cymunedau Ffydd. Mae'r Cyngor Rhyng-ffydd bellach yn ystyried ei aelodaeth cyn i'w gyfansoddiad gael ei dderbyn. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi'i rhwymo gan gyfansoddiad y Cyngor Rhyng-ffydd mewn perthynas ag aelodaeth y Fforwm Cymunedau Ffydd, ond â fyddai'n bosibl ehangu aelodaeth y Fforwm i gynnwys mwy o amrywiaeth, er mwyn annog integreiddio yng Nghymru? Yn benodol, byddai cynnwys cynrychiolaeth o eglwysi du o helpu i'r broses integreiddio.<br><br>Awgrymodd Laurence Kahn, pan fydd cyfansoddiad y Cyngor Rhyng-ffydd wedi'i ddiwygio, y gallai'r fforwm ystyried y gwaith hwn ar gyfer ei Gylch Gorchwyl ac aelodaeth ei hun.<br><br>Awgrymodd Christine Abbas y byddai unrhyw Gylch Gorchwyl ar gyfer Fforwm yn y dyfodol yn gofyn am ymrwymiad i waith rhyng-ffydd gan ei holl aelodau. Cytunodd y Dirprwy Weinidog fod hyn yn fan cychwyn defnyddiol ar gyfer trafodaethau pellach.<br><br>Eglurodd y Dirprwy Weinidog y byddai'r manylion ar gyfer y gweithdy'n cael eu rhannu maes o law, a chydnabu y byddai angen i Lywodraeth Cymru fod yn ofalus o ran strwythur y grŵp.<br><br>**Cam gweithredu 4: Swyddogion Llywodraeth Cymru i wneud trefniadau ar gyfer gweithdy ar Gylch Gorchwyl ac aelodaeth y Fforwm yn y flwyddyn newydd.** |
| 7 | **Unrhyw fusnes arall**<br><br>**<u>Fforwm Cymdeithas Sifil i gefnogi gweithrediad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru</u>**<br><br>Rhannodd y Dirprwy Weinidog â'r grŵp fod Llywodraeth Cymru'n datblygu Fforwm Cymdeithas Sifil. Cyflwynodd Amelia John, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Polisïau ar gyfer y Dyfodol a Llunio Polisïau Integredig, i sôn am y gwaith hwn.<br><br>Eglurodd Amelia fod ei thîm yn helpu cydweithwyr ar draws Llywodraeth Cymru i wreiddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a gwella'r broses o greu polisïau. Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd ar Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus i gynnwys yr amrywiaeth o bobl yng Nghymru yn y broses o greu a gweithredu polisïau, sy'n cefnogi'r ddyletswydd cynhwysiant yn y ddeddfwriaeth cydraddoldeb. |

| | |
|---|---|
| | Mae'r Dirprwy Weinidog wedi gofyn i Amelia a swyddogion yn ei thîm i ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer sefydlu Fforwm Cymdeithas Sifil i lywio a chefnogi gwaith Llywodraeth Cymru. Bwriedir osgoi dyblygu gyda fforymau eraill, ac mae'r tîm yn gweithio gyda'r CGGC a Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector i ymchwilio beth fydd ei rôl o ran dwyn ynghyd sefydliadau o'r sectorau preifat a chyhoeddus a'r trydydd sector a hwyluso sgyrsiau a chyfnewid syniadau rhyngddynt.<br><br>Byddai swyddogion yn croesawu cyfranogiad aelodau'r Fforwm neu aelodau o'r cymunedau y maent yn eu cynrychioli. Anogodd Amelia i aelodau gysylltu â hi neu'r tîm am y gwaith ar y Gymdeithas Sifil. Dywedodd hefyd y byddai'n hapus i fynychu cyfarfodydd eraill o'r Fforwm yn y dyfodol i roi diweddariadau pellach.<br><br>Dywedodd Gethin Rhys y byddai'n mynychu cyfarfod rhwng Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector yn y prynhawn, ac y byddai'n cyfeirio at y sgwrs hon ar y Fforwm Cymdeithas Sifil ac yn ystyried unrhyw ddyblygu rhwng y grwpiau amrywiol.<br><br>**Taith ryng-ffydd**<br><br>Diolchodd Christine Abbas i'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip am roi o'u hamser i ddod i'r daith dan olau cannwyll a'r noswaith rhyng-ffydd, gan ddangos didwylledd o ran eu dymuniad i fod gyda chymunedau ffydd a thrin pob grŵp yn gyfartal. Gwnaeth Christine annog y Dirprwy Weinidog i barhau i siarad am ei gweledigaeth ar gyfer gwaith rhyng-ffydd ar draws Cymru, er mwyn i'r neges ledaenu.<br><br>Dywedodd y Dirprwy Weinidog ei bod wedi mwynhau'r digwyddiad yn fawr a'i bod yn edrych ymlaen at weld y Côr Rhyng-ffydd eto. Dywedodd mai Rhodri Morgan oedd y Prif Weinidog pan sefydlwyd y Fforwm hwn, ac mai hi oedd y Gweinidog Cydraddoldeb bryd hynny hefyd. Y peth pwysig am grwpiau fel hwn ydy'r perthnasau y maent yn eu hadeiladu. Gall pobl wahanu neu ddod at ei gilydd, ac yng Nghymru fe ddaethom at ein gilydd ac rydym wedi gwneud hynny'n llwyddiannus. |
| 8 | **Diwedd** |

## Camau gweithredu

**Cam gweithredu 1: Pob aelodau i ymateb i'r ymgynghoriad yn ymwneud â'r Cwricwlwm ac annog eraill i wneud hefyd.**

**Cam gweithredu 2: Pob aelod i ystyried ffyrdd y gallent weithio gyda swyddogion, os caiff y Bil ei basio, i rannu'r fideo ac i gofrestru ar gyfer y newyddlen.**

**Cam gweithredu 3: Pob aelod i ymateb i'r ymgynghoriad ar yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol (os nad ydynt wedi gwneud hynny eisoes) ac annog eraill i wneud hynny.**

**Cam gweithredu 4: Swyddogion Llywodraeth Cymru i wneud trefniadau ar gyfer gweithdy ar Gylch Gorchwyl ac aelodaeth y Fforwm yn y flwyddyn newydd.**